------------------------Pecyn dogfennau cyhoeddus ------------------------

# Agenda - Y Pwyllgor Cydraddoldeb a Chyfiawnder Cymdeithasol

Lleoliad:

**Ystafell Bwyllgor 3 (Senedd)**

Dyddiad: Dydd Llun, 4 Mawrth 2024

Amser: 11:00 - 17:00

I gael rhagor o wybodaeth cysylltwch a:

**Rhys Morgan**

Clerc y Pwyllgor

0300 200 6565

SeneddCydraddoldeb@senedd.cymru

---

## Cofrestru cyn y cyfarfod (10:40 - 11:00)

## 1 Cyflwyniad, ymddiheuriadau, dirprwyon a datgan buddiannau

(11:00)

## 2 Llywodraethu'r Gwasanaethau Tân ac Achub: panel un

(11:00-12:00) (Tudalennau 1 - 13)

Matt Wrack, Ysgrifennydd Cyffredinol, Undeb y Brigadau Tân

Cerith Griffiths, aelod o'r Cyngor Gweithredol ar gyfer Cymru, Undeb y Brigadau Tân

## Egwyl (12:00-13:00)

## 3 Llywodraethu'r Gwasanaethau Tân ac Achub: panel dau

(13:00-14:00)

Peter Crews, Ysgrifennydd Cangen Llywodraeth Leol Cwm Taf (ar gyfer Gwasanaeth Tân ac Achub De Cymru), UNSAIN

Michelle Edwards, Ysgrifennydd Cangen Cynorthwyol a Swyddog Iechyd a Diogelwch, UNSAIN

Senedd Cymru
Welsh Parliament

Egwyl (14:00-14:15)

## 4 Llywodraethu’r Gwasanaethau Tân ac Achub: panel tri

(14:15-15:30)

Tristan Ashby, Prif Swyddog Gweithredol Cymdeithas y Gwasanaethau Tân ac Achub

Mark Hardingham, Cadeirydd, Cyngor Cenedlaethol y Penaethiaid Tân

## 5 Papurau i'w nodi

(15:30)

**5.1 Gohebiaeth gan y Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol i’r Cadeirydd ynghylch ‘Adnoddau Menopos yn y Gweithle’**

(Tudalennau 14 - 16)

**5.2 Gohebiaeth gan y Cynghorydd Gwynfor Thomas at y Cadeirydd ynghylch presenoldeb yng nghyfarfod y Pwyllgor Cydraddoldeb a Chyfiawnder Cymdeithasol ar 4 Mawrth 2024**

(Tudalen 17)

**5.3 Gohebiaeth gan y Cwnsler Cyffredinol at Gadeirydd y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a’r Cyfansoddiad ynghylch y Cytundeb Cysylltiadau Rhyng-sefydliadol: Pwyllgor Sefydlog Rhyngweinidogol**

(Tudalen 18)

**5.4 Gohebiaeth gan Goleg Brenhinol Pediatreg ac Iechyd Plant (Cymru) at y Cadeirydd ynghylch “Poeni ac aros: Adolygiad o amseroedd aros pediatrig yng Nghymru"**

(Tudalennau 19 - 25)

## 6 Cynnig o dan Reol Sefydlog 17.42(vi) i benderfynu gwahardd y cyhoedd o weddill y cyfarfod heddiw

(15:30)

**Egwyl (15:30–15:45)**

## 7 Llywodraethu'r Gwasanaethau Tân ac Achub: sesiwn friffio breifat

(15:45–16:30)

Comisiynwyr Tân:

Vij Randeniya (cyn Brif Swyddog Tân Gorllewin Canolbarth Lloegr)

Y Farwnes Wilcox o Gasnewydd (cyn Arweinydd Cyngor Dinas Casnewydd)

Kirsty Williams (cyn Aelod o'r Senedd a Gweinidog Addysg)

## 8 Llywodraethiant Gwasanaethau Tân ac Achub: ystyried tystiolaeth

(16:30–17:00)

Mae cyfyngiadau ar y ddogfen hon

Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol | Equality and Human Rights Commission

Jenny Rathbone AS
Pwyllgor Cydraddoldeb a Chyfiawnder Cymdeithasol

**Oddi wrth**: Martyn Jones, Cadeirydd Dros Dro, Pwyllgor y Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol yng Nghymru

Ein cyf: 20240222Rathbone

22 Chwefror 2024

Annwyl Jenny Rathbone,

**Adnoddau Menopos yn y Gweithle**

Rwy'n ysgrifennu i dynnu eich sylw at adnoddau newydd y mae'r Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol wedi'u cyhoeddi heddiw i helpu cyflogwyr i ddeall eu rhwymedigaethau cyfreithiol a rhoi gwell cymorth i fenywod sy'n profi symptomau menopos. Mae'r gwaith hwn yn dilyn argymhelliad gan y Pwyllgor Menywod a Chydraddoldebau ein bod yn cyhoeddi canllawiau ar y pwnc hwn.

Mae ymchwil gan Gymdeithas Fawcett yn dangos bod un o bob deg o ferched sydd wedi gweithio yn ystod y menopos wedi gadael eu swyddi oherwydd eu symptomau. Canfu arolwg gan y Sefydliad Siartredig Personél a Datblygu fod dwy ran o dair o fenywod sy'n gweithio rhwng 40 a 60 oed sydd â phrofiad o symptomau'r menopos yn dweud eu bod wedi cael effaith negyddol yn bennaf arnynt yn y gwaith. Fodd bynnag, yn ôl adroddiad gan y Pwyllgor Menywod a

Chydraddoldeb ychydig iawn o weithwyr sy'n gofyn am addasiadau yn ystod y cyfnod hwn, gan ddyfynnu pryderon yn aml ynghylch beth fyddai'r ymateb.

Wrth i nifer y menywod sy’n profi menopos tra mewn cyflogaeth gynyddu, mae’n hanfodol bod cyflogwyr yn ymwybodol o’u cyfrifoldebau cyfreithiol i gefnogi gweithwyr sy’n profi symptomau menopos.

Mae ein cyfres newydd o eglurwyr animeiddiedig a fideo astudiaeth achos yn egluro rhwymedigaethau cyfreithiol cyflogwyr o dan Ddeddf Cydraddoldeb 2010. Maent hefyd yn darparu enghreifftiau o addasiadau yn y gweithle ar waith, a chanllawiau ar gael sgyrsiau cadarnhaol am y menopos gyda staff.

Mae’r adnoddau hyn ar gael ar ein gwefan a byddwn yn annog sefydliadau i’w hadolygu ac ystyried sut y gallant addasu eu polisïau a’u harferion i wneud yn siŵr nad oes unrhyw un dan anfantais yn y gweithle.

Ar wahân, fel y gwyddoch efallai, cadarnhaodd Llywodraeth y DU Gonfensiwn Cyngor Ewrop ar Atal a Goresgyn Trais yn erbyn Menywod a Thrais Domestig (‘Confensiwn Istanbwl’) ym mis Gorffennaf 2022. Croesawyd y cam pwysig hwn gennym.

Mae arbenigwyr Cyngor Ewrop ar drais yn erbyn menywod a merched ('GREVIO') yn cynnal gwerthusiad o weithrediad y Confensiwn, a oedd yn cynnwys ymweliad â gwlad ym mis Ionawr 2024. Fel Sefydliad Hawliau Dynol Cenedlaethol statws A, rydym wedi bod yn darparu ein dadansoddiad

annibynnol ar gydymffurfio â'r Confensiwn, ac argymhellion ar gyfer newid, i gefnogi asesiad GREVIO.

Yn unol â'r rhaglen waith hon, cyn bo hir byddwn yn cyhoeddi adroddiad cynhwysfawr i hyrwyddo gwelliannau i fenywod a merched, a byddwn yn rhannu hwn â chi pan gaiff ei gyhoeddi.

Yr eiddoch yn gywir,

M Jones

Martyn Jones

**Cadeirydd Dros Dro**

**Pwyllgor y Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol yng Nghymru |**

Awdurdod Tân ac Achub Canolbarth a Gorllewin Cymru
Mid and West Wales Fire and Rescue Authority

Jenny Rathbone MS

Chair of the Equality and Social Justice Committee

Dyddiad / Date: 22/02/2024

Dear Jenny,

Thank you for your letter dated 12 February; I can confirm that I will attend in person at the Senedd on 11th March.

I am writing to request the inclusion of Chief Fire Officer Roger Thomas at the Equality and Social Justice Committee to give oral evidence. Whilst I will be able to provide an overview as Chair of Mid & West Wales Fire Authority, CFO Thomas is better placed to provide comprehensive feedback on the progress of Mid & West Wales Fire and Rescue Service in addressing the issues highlighted in your correspondence.

I trust that you will look favourably on my request which I believe will assist the Committee in gaining a broader understanding of the ongoing challenges that we face and the plans we have in place to overcome them. In the meantime, if you require any further information or assistance, please do not hesitate to contact me.

Yours Sincerely,

Cllr Gwynfor Thomas

Chair of Mid & West Wales Fire & Rescue Authority
Cadeirydd o Awdurdod Tân ac Achub Canolbarth a Gorllewin Cymru

Gwasanaeth Tân ac Achub Canolbarth a Gorllewin Cymru, Heol Llwyn Pisgwydd, Caerfyrddin, Sir Gâr, SA31 1SP
Mid and West Wales Fire and Rescue Service, Lime Grove Avenue, Carmarthen, Carmarthenshire, SA31 1SP

**Mick Antoniw AS/MS**
**Y Cwnsler Cyffredinol a Gweinidog y Cyfansoddiad**
**Counsel General and Minister for the Constitution**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Ein cyf/Our ref: CG/PO/50/2024

Huw Irranca-Davies AS
Cadeirydd
Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad
Senedd Cymru

16 Chwefror 2024

**Y Cytundeb Cysylltiadau Rhyngsefydliadol: Y Pwyllgor Sefydlog Rhyngweinidogol**

Rwy'n ysgrifennu yn unol â'r cytundeb cysylltiadau rhyngsefydliadol i roi gwybod ichi am chweched cyfarfod y Pwyllgor Sefydlog Rhyngweinidogol a gynhelir ar 20 Chwefror 2024.

Fi fydd yn cadeirio'r cyfarfod, sef cyfarfod cyntaf y Pwyllgor ers ailsefydlu Gweithrediaeth Gogledd Iwerddon. Rwy'n rhagweld y bydd y cyfarfod rhithwir hwn yn gyfle i drafod cysylltiadau rhynglywodraethol yn eu cyfanrwydd yn sgil dychweliad Gweinidogion Gogledd Iwerddon, yn ogystal â deddfwriaeth y DU a chydlyniant cymunedol. Byddaf hefyd yn tynnu sylw at yr adroddiad terfynol diweddar gan y Comisiwn Annibynnol ar Ddyfodol Cyfansoddiadol Cymru.

Rwy'n anfon copi o'r llythyr hwn at y Llywydd, ac at Gadeiryddion y Pwyllgor Cyllid, Pwyllgor yr Economi, Masnach a Materion Gwledig, y Pwyllgor Cydraddoldeb a Chyfiawnder Cymdeithasol, a'r Pwyllgor Diwylliant, Cyfathrebu, y Gymraeg, Chwaraeon a Chysylltiadau Rhyngwladol.

Byddaf yn rhoi diweddariad ar ôl y cyfarfod.

**Mick Antoniw AS/MS**
Y Cwnsler Cyffredinol a Gweinidog y Cyfansoddiad
Counsel General and Minister for the Constitution

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1SN

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400
Gohebiaeth.Mick.Antoniw@llyw.cymru
Correspondence.Mick.Antoniw@gov.Wales

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

Eitem 5.4

# **Poeni ac aros:** Adolygiad o amseroedd aros Pediatrig yng **Nghymru**

Published 2024

RCPCH
Coleg Brenhinol Pediatreg a Iechyd Plant Cymru
*Yn arwain y ffordd ar Iechyd Plant*

# Poeni ac aros: Adolygiad o amseroedd aros Pediatrig yng Nghymru



Fel pediatregydd rwy'n gweld â'm llygaid fy hun yr effaith niweidiol y mae arosiadau hir am driniaeth yn ei chael ar blant a'u teuluoedd. Rhaid rhoi llawer o driniaethau ac ymyriadau o fewn cyfnodau oedran neu ddatblygiad penodol – nid oes neb eisiau aros am driniaeth, ond mae gofal plant yn aml yn hanfodol o ran amser. Mae'r adroddiad hwn yn nodi'r galwadau enfawr ar wasanaethau pediatrig yng Nghymru. Er y bu rhywfaint o gynnydd cadarnhaol tua diwedd 2023, mae'r galwadau a'r pwysau presennol ar wasanaethau yn anghynaliadwy. Rydym wedi gosod cyfres o argymhellion nid yn unig i fynd i'r afael â'r galw presennol ond hefyd i leihau gofynion y dyfodol.

**Dr Nick Wilkinson Swyddog Cymru RCPCH**

Mae plant, pobl ifanc a theuluoedd wedi cyfrannu syniadau ac awgrymiadau ar gyfer yr adroddiad hwn, trwy weithdai strwythuredig, am sut i gefnogi a datblygu gwasanaethau i leihau amseroedd aros..

> ***Rwyf am deimlo eu bod yn ymwybodol fy mod yn aros a heb anghofio.***
>
> Pobl ifanc, RCPCH&US Voice Bank 2024

## Rhagymadrodd

Mae Sefydliad Iechyd y Byd yn pwysleisio mai 'buddsoddi mewn plant yw un o'r pethau pwysicaf y gall cymdeithas ei wneud i adeiladu dyfodol gwell.' Ac eto, mae nifer sylweddol o blant a phobl ifanc ar restrau aros yng Nghymru. Ni ddylid gadael plant a phobl ifanc a'u teuluoedd yn bryderus ac yn aros am amser hir i dderbyn gofal.

Mae'r effaith ar blentyn sy'n aros am driniaeth yn aml yn fwy difrifol nag ar oedolion oherwydd bod plentyn yn dal i ddatblygu. Rhaid rhoi llawer o driniaethau ac ymyriadau o fewn cyfnodau oedran neu ddatblygiadol penodol, ac os nad ydynt, gall hyn achosi sgil-effaith ar sgiliau cyfathrebu, datblygiad cymdeithasol a chanlyniadau addysgol, yn ogystal â'u lles meddyliol. Mae arosiadau hir yn effeithio'n anghymesur ar deuluoedd bregus ac yn gwaethygu anghydraddoldebau iechyd.

Mae'r adroddiad hwn yn cynnwys argymhellion polisi a fyddai'n sicrhau bod plant a phobl ifanc yn derbyn gofal mewn modd amserol, yn y lle iawn a chan y gweithiwr proffesiynol cywir. Mae'r argymhellion hyn yn ystyried pedair thema graidd: y gweithlu iechyd plant, data, anghydraddoldebau iechyd a gofal sy'n briodol i'w hoedran.


# Data Cymru

Mae'r adroddiad a ganlyn yn rhoi naratif o ddata a gafwyd gan StatsCymru rhwng 2016-2023, gyda sbotolau rhwng Tachwedd 2022 a Thachwedd 2023. Mae data ar gyfer Cymru yn cael ei gofnodi'n fisol a chaiff amseroedd aros rhwng atgyfeirio a thriniaeth eu grwpio fesul wythnos a'u categoreiddio fesul Bwrdd Iechyd.

Mae'r adroddiad hwn yn edrych ar gleifion sy'n aros ar y 'llwybr pediatrig'. Cesglir data ar gleifion allanol pediatrig, niwroleg, damweiniau ac achosion brys, CAMHS, deintyddiaeth a llawfeddygaeth ar wahân ac nid ydynt wedi'u cynnwys isod.

Rhennir nifer yr amseroedd aros yn dri; hyd at 26 wythnos, rhwng 26 a 36 wythnos, a thros 36 wythnos. Nod y targed safonol yw i 95% neu fwy o gleifion aros llai na 26 wythnos i ddechrau triniaeth. Nid yw'r targed hwn wedi'i gyrraedd yn y llwybr pediatreg ers mis Chwefror 2020.[1]

Ym mis Tachwedd 2016, cyfanswm yr arosiadau pediatrig parhaus oedd 7,096. Ym mis Tachwedd 2023 roedd 11,514. **Mae hyn yn gynnydd o 62.3%**. Mae hyn yn cymharu â chynnydd o 7% mewn amseroedd aros (oedolion) am riwmatoleg, cynnydd o 52.6% mewn trawma ac orthopaedeg a chynnydd o 57.4% mewn amseroedd aros Clustiau, Trwyn a Gwddf yn ystod yr un cyfnod.





**Ff1. Cymru: amseroedd aros parhaus fesul swyddogaeth driniaeth bediatrig 2016-2023, StatsCymru.**

Wrth edrych ar y gwahaniaeth rhwng Tachwedd 2022 a Thachwedd 2023, bu gostyngiad **cyffredinol o 4.5%**. Fodd bynnag, cyrhaeddodd amseroedd aros y lefel uchaf erioed ym mis Mai 2023 (13,367) cyn dechrau gostwng.

Mae hyn yn arwydd cadarnhaol o gyfeiriad posibl yn y dyfodol. Fodd bynnag, mae'r ffigur cenedlaethol yn cuddio amrywiad rhanbarthol. Ym Mwrdd Iechyd Prifysgol Bae Abertawe rhwng mis Tachwedd 2022 a mis Tachwedd 2023 hanerodd nifer cyffredinol yr amseroedd aros pediatrig (51%), gan ostwng o 1,331 i 647. Yn yr un modd, gostyngodd Bwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan amseroedd aros pediatrig gan 47%, o 1,487 i 788. Gwelodd Bwrdd Iechyd Prifysgol Cwm Taf Morgannwg a Bwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda ill dau gynnydd mewn amseroedd aros, 26% ac 17% yn y drefn honno. Dylid rhannu llwyddiannau Byrddau Iechyd i leihau amseroedd aros pediatrig ac, os yw'n addas, eu mabwysiadu ledled Cymru. Bu gostyngiad o 2.7% yng Nghaerdydd a'r Fro, tra gwelodd Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr gynnydd o 2.7%.

1 StatsCymru, Canran y llwybrau cleifion sy'n aros i ddechrau triniaeth o fewn yr amser targed fesul mis ac wythnosau wedi'u grwpio, , https://statswales.gov.wales/Catalogue/Health-and-Social-Care/NHS-Hospital-Waiting-Times/Referral-to-Treatment/percentage-patientpathwayswaiting-month-grouped-weeks

Wrth edrych ar yr arosiadau parhaus hiraf (dros 36 wythnos), roedd 2 ym mis Tachwedd 2016 a 1,203 ym mis Tachwedd 2023, a oedd yn cyfrif am 10.4% o gyfanswm yr amseroedd aros pediatrig. Cododd amseroedd aros dros 36 wythnos gan 40.2% rhwng Tachwedd 2022 (858) a Thachwedd 2023 (1,203).




**f2. Cymru: cyfanswm yr arosiadau parhaus a chyfran yr arosiadau dros 36 wythnos 2016-2023, StatsCymru**

> ***Y tro diwethaf, doeddwn i ddim yn gwybod pam y bu'n rhaid i aros, a oedd yn fy ngwneud yn bryderus (Rhiant/Gofalwr).***
>
> Rhiant/Gwarchodwr, RCPCH &Us Voice Bank 2024

## Tablau data Cymru

Mae'r tablau isod yn dangos cyfartaledd y 12 pwynt data misol ar gyfer pob blwyddyn. Mae'r niferoedd uchaf a lleiaf yn cyfateb i'r mis gyda'r nifer uchaf o lwybrau agored o fewn blwyddyn benodol a'r mis gyda'r nifer lleiaf o lwybrau agored ar gyfer yr un flwyddyn. Mae niferoedd 2023 yn rhannol a hyd at fis Tachwedd.

| | Cyfanswm aros | | | Aros dros 36 wythnos | | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| **Blwy** | **Cyfartaledd** | **Mwy** | **Llei** | **Cyfartaledd** | **Max** | **Llei** |
| **2016** | 7531.4 | 8082 | 6960 | 14.5 | 54 | 2 |
| **2017** | 7843.2 | 8230 | 7116 | 27.8 | 90 | 2 |
| **2018** | 7823.7 | 8372 | 7363 | 14.7 | 48 | 1 |
| **2019** | 8340.6 | 8758 | 7696 | 1.6 | 4 | 1 |
| **2020** | 7729.3 | 8816 | 6911 | 297.4 | 701 | 3 |
| **2021** | 8813.5 | 10776 | 6923 | 546.8 | 705 | 366 |
| **2022** | 12068.8 | 12485 | 11186 | 845.3 | 1187 | 711 |
| **2023** | 12872.4 | 13367 | 11514 | 1523.3 | 1808 | 1203 |

## Cynllun adfer COVID-19

Ym mis Ebrill 2022, cyhoeddodd Llywodraeth Cymru raglen ar gyfer trawsnewid a moderneiddio gofal wedi'i gynllunio a lleihau rhestrau aros. Roedd hyn yn cynnwys gosod targedau i ddod ag arosiadau dwy flynedd i ben erbyn mis Mawrth 2023 ac arosiadau blwyddyn erbyn Gwanwyn 2025. Nid yw'r targed ar gyfer dod ag arosiadau dwy flynedd i ben wedi'i gyrraedd ar gyfer y rhai dan 18 oed.

Ym mis Tachwedd 2023 roedd 6,785 o bobl dan 18 oed yn aros dros flwyddyn am driniaeth a 1,229 arall yn aros dros ddwy flynedd. Nid yw'r rhain o reidrwydd yn gleifion pediatrig ond yn hytrach pawb sydd angen triniaeth dan 18 oed. Pan gaiff y data ei hidlo yn ôl y llwybr pediatrig dim ond 179 o gleifion pediatrig sy'n aros dros flwyddyn ac nid oes yr un ohonynt yn aros dros ddwy flynedd.

**Ffaith Allweddol:**

**Ym mis Tachwedd 2023, roedd 6,785 o bobl dan 18 oed yn aros dros flwyddyn am driniaeth, a 1,229 yn aros dros 2 flynedd. Roedd 3,307 yn ychwanegol yn aros dros flwyddyn am apwyntiad claf allanol.**

Mae nifer y rhai dan 18 oed sy'n aros dros flwyddyn (ac eithrio apwyntiadau cleifion allanol) wedi gostwng 29% rhwng Tachwedd 2022 a Thachwedd 2023. Ar gyfer cleifion sy'n aros am fwy na 2 flynedd, yn dilyn cynnydd cychwynnol o 14% rhwng Tachwedd 2021 a Thachwedd 2022 , bu gostyngiad o 58% rhwng Tachwedd 2022 a Thachwedd 2023.

Er bod y llwybr hwn yn gadarnhaol, mae nifer sylweddol o bobl dan 18 oed yn aros am amser hir am driniaeth o hyd. Nid oedd hyn yn wir cyn-bandemig.

> ***Cysylltwch bobl ifanc â grwpiau eraill o bobl ifanc sy'n mynd trwy'r un pethau. Grwpiau ieuenctid – dydw i ddim yn adnabod unrhyw un sydd â meigryn.***
> Pobl ifanc, RCPCH &Us Voice Bank 2024

# Argymhellion

### Argymhelliad 1: Gweithlu Iechyd Plant

Mae ar Gymru angen gweithlu sy'n gallu darparu gofal pediatrig diogel ac effeithiol. Mae nifer y pediatregwyr ymgynghorol yng Nghymru wedi cynyddu 25% ers 2016. Bu angen hyn oherwydd galwadau yn ogystal â chynnydd mewn gweithio llai na llawn amser. Nid yw gweithwyr iechyd plant proffesiynol eraill wedi profi cynnydd tebyg, er enghraifft mae ymwelwyr iechyd wedi gostwng 6% ers 2016.

- Mae'n rhaid i Addysg a Gwella Iechyd Cymru (AaGIC) gwblhau adolygiad o'r gweithlu iechyd plant **cyfan**, gan gynnwys y niferoedd sy'n gweithio mewn lleoliadau iechyd plant, cyfnod eu gyrfaoedd, gweithle, demograffeg a phatrwm gwaith. Dylai hyn arwain at gomisiynu'r gweithlu i fodloni'r galw mewn 5, 10 a 15 mlynedd.

- Dylai AaGIC, mewn cydweithrediad â GIG Cymru, ddatblygu strategaeth gweithlu iechyd plant bwrpasol sy'n anelu at ddenu a chadw gweithwyr iechyd plant proffesiynol. Rhaid i hyn fod yn amlddisgyblaethol a throsgynnol ar draws gofal sylfaenol, eilaidd, trydyddol, cymunedol a chymdeithasol.

## Argymhelliad 2: Data

Prin yw'r data cyhoeddedig sy'n ymwneud ag iechyd plant yng Nghymru. O'r data uchod, dangosir na allwn ddadgyfuno'r data yn ôl arbenigedd pediatrig, ond gallwch chi ar gyfer oedolion. Mae hyn yn golygu na allwn ddeall y pwysau llawn ar wasanaethau pediatrig a pha arbenigeddau sydd dan straen arbennig.

- Dylai Llywodraeth Cymru, Iechyd Cyhoeddus Cymru a GIG Cymru wella'r broses o gasglu, rhannu a defnyddio data iechyd plant pan fo'n briodol. Rhaid i hyn gynnwys caniatáu i ddefnyddwyr y data hidlo yn ôl amseroedd aros arbenigol pediatrig fesul bwrdd iechyd.

- Dylai GIG Cymru fuddsoddi mewn digideiddio cofnodion iechyd plant a'r dechnoleg sydd ei hangen i gefnogi hyn mewn gofal sylfaenol, cymunedol, eilaidd a thrydyddol.

- Dylid monitro amrywiadau rhanbarthol o fewn y data presennol a'u safoni lle bo'n bosibl a dylid annog a hwyluso rhannu enghreifftiau o arfer da gan GIG Cymru.

## Argymhelliad 3: Anghydraddoldebau Iechyd

Mae tlodi'n effeithio'n anghymesur ar blant yng Nghymru (28%) o gymharu ag oedolion o oedran gweithio (21%) a phensiynwyr (18%). Mae tlodi'n cael effaith sylweddol ar iechyd plant gyda gordewdra, ysmygu a chyflyrau iechyd meddwl i gyd yn uwch mewn ardaloedd o amddifadedd a nifer y rhai sy'n cael eu brechu yn is o gymharu ag ardaloedd o amddifadedd isel. Yn ogystal, rhwng 2011 a 2020, roedd cyfradd marwolaethau plant 70% yn uwch yn ardaloedd mwyaf difreintiedig Cymru o gymharu â'r lleiaf difreintiedig.

- Er mwyn sicrhau bod y Strategaeth Tlodi Plant yn cael ei rhoi ar waith yn gadarn ac yn dryloyw, rhaid i Lywodraeth Cymru gyflwyno fframwaith monitro ar unwaith.

- Rhaid i Lywodraeth Cymru hefyd wella canlyniadau iechyd i blant sy'n byw mewn tlodi ar hyn o bryd drwy ddatblygu cynllun cyflawni trawslywodraethol ar gyfer mynd i'r afael ag anghydraddoldebau iechyd plant.

### Argymhelliad 4: Gofal sy'n Addas i Oedran

Mae angen i Gymru sicrhau nad yw plant 16-18 oed yn cwympo rhwng gwasanaethau.
Er bod y rhai sy'n aros dros flwyddyn a thros ddwy flynedd wedi gostwng, roedd 6,785 o bobl dan 18 oed yn aros dros flwyddyn am driniaeth, 1,229 yn aros dros 2 flynedd am driniaeth, a 3,307 yn aros dros flwyddyn am apwyntiad claf allanol. (Tachwedd 2023). Mae angen i GIG Cymru sicrhau bod yr unigolion hyn yn cael eu gweld gan y gweithiwr iechyd proffesiynol cywir, mewn modd amserol..

- Mae angen i Lywodraeth Cymru, gyda chefnogaeth Gweithrediaeth y GIG, adolygu'r canllawiau gofal sy'n briodol i'r oedran a sicrhau eu bod yn cael eu gweithredu'n llawn gan Fyrddau Iechyd. Dylai hyn sicrhau cynllunio gwasanaethau ar gyfer y glasoed.
- Mae angen i Lywodraeth Cymru a GIG Cymru sicrhau bod digon o gyfeirio a chyllid ar gyfer grwpiau cymorth cymheiriaid i blant a phobl ifanc.
- Dylai Byrddau Iechyd sicrhau bod gan wasanaethau pediatrig a gwasanaethau oedolion ddigon o adnoddau i gefnogi ei gilydd i gyflawni cyfnod pontio cyfannol di-dor sy'n briodol i oedran.

## Casgliad

Mae'r adroddiad hwn wedi amlinellu nid yn unig y galw enfawr am wasanaethau pediatrig ond ar gyfer pawb o dan 18 oed. Er bod Cymru'n dechrau gweld rhywfaint o gynnydd dros yr ychydig fisoedd diwethaf, rydym ymhell o amseroedd aros 2016 ac nid ydym yn cyrraedd y targed safonol o 95%.
Mae angen i Gymru fuddsoddi yn y gweithlu iechyd plant cyfan, gwella ansawdd data iechyd plant a chanolbwyntio ar atal, gwella gofal ar gyfer pobl ifanc 16-18 oed a mynd i'r afael ag anghydraddoldebau iechyd plant.

Hoffem ddiolch i'r holl blant, pobl ifanc, a theuluoedd, o ymweliadau â chlinig cleifion allanol a chanolfan ieuenctid yng Nghymru, a roddodd eu barn ar amseroedd aros a'u barn ar yr hyn sy'n helpu wrth aros am atgyfeiriadau a beth y gellid ei wella. Dywedon nhw, "Mae gwell cyfathrebu yn hanfodol" a bod angen i ni ddeall "pam rydyn ni'n cael ein cyfeirio at arbenigwr." Mae plant a phobl ifanc eisiau i Feddygon weithio gydag "ysgolion i gynyddu'r gefnogaeth a roddir i ni a'n cyfeirio at sefydliadau eraill a all helpu ni gyda chefnogaeth bellach" ac i "roi gwybodaeth gefnogol i ni – awgrymiadau da, fideos, taflenni". RCPCH & Us (2024) Voicebank heb ei gyhoeddi. Llundain: RCPCH

## Am RCPCH Cymru

Mae'r RCPCH yn gweithio i drawsnewid iechyd plant trwy wybodaeth, arloesedd ac arbenigedd. Mae gennym dros 600 o aelodau yng Nghymru, a 22,800 o aelodau ledled y byd. Mae'r RCPCH yn gyfrifol am hyfforddi ac archwilio paediatregwyr. Rydym hefyd yn eirioli ar ran aelodau, yn cynrychioli eu barn ac yn defnyddio eu harbenigedd i lywio datblygiad polisi a chynnal safonau proffesiynol.

**Am ragor o wybodaeth cysylltwch â Sarah Williamson, Rheolwr Polisi a Materion Cyhoeddus (Cymru), Sarah.Williamson@rcpch.ac.uk**

Mae Coleg Brenhinol Pediatreg a Iechyd Plant (RCPCH) yn elusen gofrestredig yng Nghymru a Lloegr (1057744) ac yn Yr Alban (SC038299).